

Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards mewn
# Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu (RQF)

601/6111/5

FOCUS AWARDS

# Gwybodaeth Allweddol

Lefel: 4

Sector: Addysgu a Darlithio

Math o Gymhwyster: Cymhwyster Galwedigaethol

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 170

Gwerth y Credydau: 17

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 95

Statws: Ar gael i Ddysgwyr

Dulliau Asesu: Portffolio Tystiolaeth

Isafswm oedran: 19



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Cynnwys


Gwybodaeth Allweddol ........ 2

Diben y Cymhwyster ........ 4

Ystod Oedran ........ 4

Cwmpas Daearyddol ........ 4

Gofynion Mynediad i Ddysgwyr ........ 4

Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig ........ 4

Dulliau Asesu ........ 5

Llwybrau Cynnydd ........ 5

Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol ........ 5

Strwythur y Cymhwyster ........ 6

Unedau ........ 7

# Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Prosesau ac Arferion Asesu (RQF)

Rhif Cyfeirnod y Cymhwyster: 601/6111/5

Oriau Dysgu dan Arweiniad: 95

Cyfanswm Amser y Cymhwyster: 170

Credydau: 17

## Diben y Cymhwyster:

Nod Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu (RQF) yw rhoi'r wybodaeth a'r cymhwysedd i ddysgwyr asesu unigolion yn y gweithle.

Mae Tystysgrif Lefel 4 Focus Awards mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu (RQF) wedi'i hanelu at y rhai sy'n cynnal ansawdd asesu o fewn sefydliad neu ganolfan asesu.

## Ystod Oedran:

Ceir mynediad yn ôl disgresiwn y ganolfan. Fodd bynnag, dylai dysgwyr fod yn 19 oed i ymgymryd â'r cymhwyster hwn.

## Cwmpas Daearyddol:

Mae'r cymhwyster hwn ar gael yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## Gofynion Mynediad i Ddysgwyr:

Nid yw Focus Awards yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill, ond gall y ganolfan bennu neu ofyn am feini prawf ychwanegol.

## Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig:

Cyfeiriwch at 'Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig' Focus Awards. Mae copi ar gael i'w lawrlwytho o wefan Focus Awards yn yr url canlynol: https://www.focusawards.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/Reasonable-Adjustments.pdf

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

## Dulliau Asesu:

Mae'r cymhwyster hwn yn cael ei asesu'n fewnol. Rhaid i bob dysgwr greu portffolio tystiolaeth sy'n dangos ei fod wedi cyflawni'r holl ddeilliannau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â phob uned.

Gallai'r prif ddarnau o dystiolaeth ar gyfer y portffolio gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Arsylwadau'r asesydd
- Tystiolaeth tystion
- Cynnyrch dysgwr
- Taflenni gwaith
- Aseiniadau/prosiectau/adroddiadau
- Cofnod o gwestiynu llafar ac ysgrifenedig
- Adroddiadau dysgwyr a chymheiriaid
- Cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol (RPL)

## Llwybrau Cynnydd:

Gall dysgwyr sydd am symud ymlaen o'r cymhwyster hwn ddatblygu eu sgiliau ymhellach drwy'r canlynol:

- Dyfarniad Lefel 4 mewn Deall Sicrhau Ansawdd Allanol Prosesau ac Arferion Asesu (RQF)
- Dyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Allanol Prosesau ac Arferion Asesu (RQF)
- Tystysgrif Lefel 4 mewn Arwain Sicrhau Ansawdd Allanol Prosesau ac Arferion Asesu (RQF)

## Deunydd Ategol a Gwefannau Defnyddiol:

- https://focusawards.org.uk/supportingmaterials
- https://ofqual.gov.uk

# Strwythur y Cymhwyster:

Er mwyn ennill y cymhwyster, rhaid i ddysgwyr gyflawni 17 o gredydau o'r 3 uned orfodol.

# Unedau Gorfodol:

| Teitl yr Uned | Cyfeirnod yr Uned | Lefel | Credydau | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|---|---|
| Deall egwyddorion ac arferion sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | T/601/5320 | 4 | 6 | 45 |
| Sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | A/601/5321 | 4 | 6 | 45 |
| Cynllunio, dyrannu a monitro gwaith yn ei faes cyfrifoldeb ei hun | H/600/9674 | 4 | 5 | 45 |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Unedau

| | | |
|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Deall egwyddorion ac arferion sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | |
| Rhif yr Uned: | T/601/5320 | |
| Lefel: | 4 | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 45 | |
| Credydau: | 6 | |

Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw asesu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar ymarferydd dysgu a datblygu er mwyn sicrhau ansawdd asesu yn fewnol.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Deall cyd-destun ac egwyddorion sicrhau ansawdd mewnol | 1.1 | Esbonio swyddogaethau sicrhau ansawdd mewnol mewn dysgu a datblygu |
| | | 1.2 | Esbonio cysyniadau ac egwyddorion allweddol sicrhau ansawdd asesu yn fewnol |
| | | 1.3 | Esbonio rolau ymarferwyr sy'n ymwneud â'r broses sicrhau ansawdd mewnol ac allanol |
| | | 1.4 | Esbonio'r rheoliadau a'r gofynion ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol yn ei faes ymarfer ei hun |
| 2 | Deall sut i gynllunio sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | 2.1 | Gwerthuso pwysigrwydd cynllunio a pharatoi gweithgareddau sicrhau ansawdd mewnol |
| | | 2.2 | Esbonio beth ddylai cynllun sicrhau ansawdd mewnol gynnwys |
| | | 2.3 | Crynhoi'r paratoadau y mae angen eu gwneud ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol, gan gynnwys:<br>• Casglu gwybodaeth<br>• Cyfathrebiadau<br>• Trefniadau gweinyddol<br>• Adnoddau |
| 3 | Deall technegau a meini prawf ar gyfer monitro ansawdd asesu yn fewnol | 3.1 | Gwerthuso gwahanol dechnegau ar gyfer samplu tystiolaeth o asesu, gan gynnwys defnyddio technoleg |
| | | 3.2 | Esbonio'r meini prawf priodol i'w defnyddio ar gyfer barnu ansawdd y broses asesu |
| 4 | Deall sut i gynnal a gwella ansawdd asesu yn fewnol | 4.1 | Crynhoi'r mathau o adborth, cymorth a chyngor y gall fod eu hangen ar aseswyr i gynnal a gwella ansawdd asesu |
| | | 4.2 | Esbonio gofynion safoni mewn perthynas ag asesu |
| | | 4.3 | Esbonio gweithdrefnau perthnasol o ran anghydfodau ynghylch ansawdd asesu |
| 5 | Deall sut i reoli gwybodaeth sy'n berthnasol i sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | 5.1 | Gwerthuso gofynion ar gyfer rheoli gwybodaeth, diogelu data a chyfrinachedd mewn perthynas â sicrhau ansawdd asesu yn fewnol |
| 6 | Deall y gofynion cyfreithiol ac arfer da ar gyfer sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | 6.1 | Gwerthuso materion, polisïau a gweithdrefnau cyfreithiol sy'n berthnasol i sicrhau ansawdd asesu yn fewnol, gan gynnwys y rhai ar gyfer iechyd, diogelwch a lles |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | 6.2 | Gwerthuso gwahanol ffyrdd y gall technoleg gyfrannu at sicrhau ansawdd asesu yn fewnol |
| | | 6.3 | Esbonio gwerth ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewnol |
| | | 6.4 | Gwerthuso gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a, lle y bo'n briodol, dwyieithrwydd, mewn perthynas â sicrhau ansawdd asesu yn fewnol |


Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl yr Uned: | Sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | | |
| Rhif yr Uned: | A/601/5321 | | |
| Lefel: | 4 | | |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 45 | | |
| Credydau: | 6 | | |
| Manylion yr uned: Nod yr uned hon yw asesu perfformiad ymarferydd dysgu a datblygu sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd asesu yn fewnol. | | | |
| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
| 1 | Gallu cynllunio sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | 1.1 | Cynllunio gweithgareddau monitro yn unol â gofynion ei rôl ei hun |
| | | 1.2 | Gwneud trefniadau ar gyfer gweithgareddau monitro mewnol i sicrhau ansawdd |
| 2 | Gallu gwerthuso ansawdd asesu yn fewnol | 2.1 | Cynnal gweithgareddau monitro mewnol i ofynion ansawdd |
| | | 2.2 | Gwerthuso arbenigedd a chymhwysedd asesydd mewn perthynas â gofynion ei rôl |
| | | 2.3 | Gwerthuso cynllunio a pharatoi prosesau asesu |
| | | 2.4 | Penderfynu a yw dulliau asesu yn ddiogel, yn deg, yn ddilys ac yn ddibynadwy |
| | | 2.5 | Penderfynu a wneir penderfyniadau asesu gan ddefnyddio'r meini prawf penodedig |
| | | 2.6 | Cymharu penderfyniadau'r asesydd i sicrhau eu bod yn gyson |
| 3 | Gallu cynnal a gwella ansawdd asesu yn fewnol | 3.1 | Rhoi adborth, cyngor a chymorth i aseswyr, gan gynnwys cyfleoedd datblygu proffesiynol, sy'n eu helpu i gynnal a gwella ansawdd asesu |
| | | 3.2 | Cymhwyso gweithdrefnau i safoni arferion a deilliannau asesu |
| 4 | Gallu rheoli gwybodaeth sy'n berthnasol i sicrhau ansawdd asesu yn fewnol | 4.1 | Cymhwyso gweithdrefnau ar gyfer cofnodi, storio ac adrodd gwybodaeth sy'n ymwneud â sicrhau ansawdd mewnol |
| | | 4.2 | Dilyn gweithdrefnau i gynnal cyfrinachedd gwybodaeth sicrhau ansawdd mewnol |
| 5 | Gallu cynnal gofynion cyfreithiol ac arfer da wrth fonitro a chynnal ansawdd asesu yn fewnol | 5.1 | Cymhwyso polisïau, gweithdrefnau a deddfwriaeth berthnasol mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewnol, gan gynnwys y rhai ar gyfer iechyd, diogelwch a lles |
| | | 5.2 | Cymhwyso gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a lle y bo'n briodol, dwyieithrwydd, mewn perthynas â sicrhau ansawdd mewnol |
| | | 5.3 | Myfyrio'n feirniadol ar ei ymarfer ei hun wrth sicrhau ansawdd mewnol |
| | | 5.4 | Cynnal cyfredoldeb ei arbenigedd a'i gymhwysedd ei hun wrth sicrhau ansawdd asesu yn fewnol |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Uned: | Cynllunio, dyrannu a monitro gwaith yn ei faes cyfrifoldeb ei hun |
| Rhif yr Uned: | H/600/9674 |
| Lefel: | 4 |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: | 25 |
| Credydau: | 5 |

Manylion yr uned: Mae'r uned hon yn dangos i ddysgwyr sut i gynllunio, dyrannu a monitro gwaith mewn maes cyfrifoldeb penodol. Mae'n rhoi'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r cymhwysedd i ddysgwyr roi gwybodaeth ddamcaniaethol ar waith.

| Deilliant Dysgu<br>Bydd y dysgwr yn: | | Maen Prawf Asesu<br>Gall y dysgwr: | |
|---|---|---|---|
| 1 | Gallu llunio cynllun gwaith ar gyfer ei faes cyfrifoldeb ei hun | 1.1 | Esbonio'r cyd-destun y mae gwaith i'w wneud ynddo |
| | | 1.2 | Nodi'r sylfaen sgiliau a'r adnoddau sydd ar gael |
| | | 1.3 | Archwilio blaenoriaethau a meini prawf llwyddiant y mae eu hangen ar y tîm |
| | | 1.4 | Llunio cynllun gwaith ar gyfer ei faes cyfrifoldeb ei hun |
| 2 | Gallu dyrannu a chytuno ar gyfrifoldebau gydag aelodau'r tîm | 2.1 | Nodi cyfrifoldebau aelodau'r tîm ar gyfer gweithgareddau gwaith a nodwyd |
| | | 2.2 | Cytuno ar gyfrifoldebau ac amcanion CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol) gydag aelodau'r tîm |
| 3 | Gallu monitro cynnydd ac ansawdd gwaith yn ei faes cyfrifoldeb ei hun a darparu adborth | 3.1 | Nodi ffyrdd o fonitro cynnydd yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt a rhoi adborth i aelodau'r tîm |
| | | 3.2 | Monitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt a darparu adborth i aelodau'r tîm |
| 4 | Gallu adolygu a diwygio cynlluniau gwaith ar gyfer ei faes cyfrifoldeb ei hun a chyfleu newidiadau | 4.1 | Adolygu a diwygio cynllun gwaith lle mae angen newidiadau |
| | | 4.2 | Cyfleu newidiadau i aelodau'r tîm |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

# Gofynion o ran Staff

## Gofynion ar gyfer Tiwtoriaid/Hyfforddwyr

Bydd gofyn i diwtoriaid sy'n cyflwyno'r cymhwyster feddu ar gymhwyster addysgu neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel Lefelau 3, 4 neu 5 mewn Addysg a Hyfforddiant, neu Dystysgrif mewn Addysg. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau addysgu eraill wrth wneud cais. Rhaid i diwtoriaid hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

## Gofynion ar gyfer Aseswyr

Bydd gofyn i aseswyr feddu ar gymhwyster asesu perthnasol, neu fod yn gweithio tuag ato. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau fel:

- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cymhwysedd yn yr Amgylchedd Gwaith
- Dyfarniad Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad Galwedigaethol

Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau asesu perthnasol eraill wrth wneud cais.
Bydd yn ofynnol i aseswyr sydd ond yn meddu ar Ddyfarniad Lefel 3 mewn Deall Egwyddorion a Phrosesau Asesu gwblhau rhaglen astudio ychwanegol i gyflawni'r unedau cymhwysedd perthnasol sy'n ofynnol ar gyfer un o'r cymwysterau a restrir uchod.
Bydd yn ofynnol i benderfyniadau aseswyr dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster asesu gael eu cydlofnodi gan asesydd â chymwysterau addas.
Rhaid i aseswyr hefyd allu dangos eu bod yn gymwys yn alwedigaethol ym maes y sector.

## Gofynion ar gyfer Sicrhawyr Ansawdd Mewnol

Dylai Sicrhawyr Ansawdd Mewnol feddu ar gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol, neu fod yn gweithio tuag ato. Gall hyn gynnwys cymwysterau fel V1 (D34 gynt), neu Ddyfarniad Lefel 4 mewn Sicrhau Ansawdd Mewnol Prosesau ac Arferion Asesu. Fodd bynnag, bydd Focus Awards yn ystyried cymwysterau perthnasol eraill Sicrhau Ansawdd Mewnol wrth gyflwyno cais. Bydd yn ofynnol i benderfyniadau Sicrhawyr Ansawdd Mewnol dan hyfforddiant nad oes ganddynt gymhwyster Sicrhau Ansawdd Mewnol gael eu cydlofnodi gan Sicrhawr Ansawdd Mewnol â chymwysterau addas. Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol allu dangos cymhwysedd galwedigaethol.

# Geirfa ddefnyddiol o'r termau a ddefnyddir yn y fanyleb hon

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys Manyleb Cymwysterau Focus Awards yn cael eu defnyddio. Nid yw pob term o reidrwydd yn cael ei ddefnyddio yn y cymhwyster hwn.

| | |
|---|---|
| Adolygu a diwygio | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau i wella eglurder neu arddangos dealltwriaeth yn well. |
| Allosod | Defnyddio gwybodaeth a data sy'n bodoli eisoes i ragfynegi deilliannau neu ganlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r 'norm' disgwyliedig. |
| Amcangyfrif | Defnyddio gwybodaeth, profiad a gwybodaeth berthnasol arall sy'n bodoli eisoes i nodi barn fras neu 'amcan gorau'. |
| Arddangos | Disgrifio neu esbonio gwybodaeth neu ddealltwriaeth drwy ddarparu enghreifftiau neu ddarluniau. |
| Barnu | Llunio barn neu wneud penderfyniad. |
| Coladu | Casglu a threfnu gwybodaeth mewn trefn resymegol (e.e. yn nhrefn yr wyddor, yn rhifiadol, yn gronolegol ayyb.). |
| Crynhoi | Cyfleu'r prif syniadau neu ffeithiau yn gryno. |
| Cyfiawnhau | Rhoi esboniad boddhaol ar gyfer gweithredoedd neu benderfyniadau. |
| Cyflawni | Ymgymryd â thasg neu broses i fodloni gofynion y cwestiwn. |
| Cymharu | Archwilio'r pynciau yn fanwl i nodi gwahaniaethau a thebygrwydd. |
| Cymharu'n feirniadol | Yn debyg i 'gymharu' uchod, ond gan ystyried unrhyw agweddau cadarnhaol a/neu gyfyngiadau sy'n codi o'r gwahaniaethau a'r tebygrwydd a nodwyd. |
| Cymhwyso | Esbonio sut y gellir defnyddio gwybodaeth bresennol mewn sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| Cynllunio | Llunio a chofnodi (rhestru) dilyniant rhesymegol, trefnus o wybodaeth, adnoddau a chamau/digwyddiadau gofynnol sy'n galluogi cysyniad neu syniad i gael ei grisialu a'i gyfathrebu. |
| Dadansoddi | Torri'r pwnc yn rhannau unigol. Archwilio pob un, dangos sut maen nhw'n cyd-fynd â'i gilydd, p'un a ydyn nhw'n cefnogi ei gilydd a pham maen nhw'n bwysig. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol ychwanegu at eich dadansoddiad. |
| Dangos | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| Darparu | Nodi a chyflwyno gwybodaeth fanwl a chywir sy'n gysylltiedig â'r pwnc. |

FOCUS AWARDS



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| | |
|---|---|
| Datblygu... | Ehangu cynllun neu syniad drwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder gwybodaeth. |
| Datgan | Rhoi'r prif bwyntiau'n glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| Dehongli | Esbonio ystyr rhywbeth. |
| Dewis | Gwneud dewis gwybodus at ddiben penodol neu ddeilliant/canlyniad gofynnol. |
| Diagnosio | Coladu ac ystyried tystiolaeth briodol i nodi achos neu darddiad sefyllfa neu broblem. |
| Disgrifio | Ysgrifennu am y pwnc, gan gyflwyno gwybodaeth fanwl yn rhesymegol. |
| Dod i gasgliadau... | Derbyn rheswm neu benderfyniad neu farn ar sail rhesymeg. |
| Dosbarthu | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| Egluro | Esbonio'r wybodaeth a gyflwynir yn glir ac yn gryno. |
| Esbonio | Cyflwyno gwybodaeth fanwl am y pwnc gyda rhesymau sy'n dangos sut neu pam y mae'n cael ei chynnwys. Dylech gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn lle bo hynny'n bosibl. |
| Gwahaniaethu (esbonio) | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng 2 neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| Gwahaniaethu (nodi) | Nodi'r gwahaniaethau rhwng 2 neu fwy o ddadleuon, sefyllfaoedd neu bynciau. |
| Gweithredu | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| Gwerthuso | Archwilio cryfderau a gwendidau, ystyried dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu debygrwydd a gwahaniaethau. Asesu unrhyw dystiolaeth a gyflwynir o wahanol safbwyntiau a dod i gasgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Gall cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol gefnogi'r gwerthusiad. |
| Myfyrio | Ystyried gweithredoedd, profiadau neu ddysgu a sut y gall y rhain effeithio ar ymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| Nodi | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. Efallai y bydd angen disgrifiad neu esboniad ychwanegol i gynorthwyo eglurder ac i briodoli hygrededd. |
| Trafod | Creu cyfrif manwl o ystod o safbwyntiau, barn neu bersbectif. |
| Ystyried | Meddwl yn feirniadol am sefyllfa, problem, gweithred neu benderfyniad a gyflwynir, a'i esbonio. Gweler hefyd 'esbonio' isod. |

# Adborth yr Asesydd

| | |
|---|---|
| Enw'r Myfyriwr: | |
| Rhif y Myfyriwr: | |
| Cwrs: | |
| Uned(au): | |
| Meini prawf: | |
| Dyddiad: | |
| Sylwadau: | |
| | |
| Penderfyniad: | |
| Camau Pellach: | |
| Asesydd: | |
| Swydd: | |

# Adroddiad Sicrhau Ansawdd Mewnol



Copyright © Focus Awards. All rights reserved

| **Cymhwyster:** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asesydd:** | | | Sicrhawr Ansawdd Mewnol: | | |
| **Enw'r Ymgeisydd** | Uned(au) a Samplwyd | Dulliau Asesu | Sylwadau | | |
| | | | | | |
| | | Llofnod y Sicrhawr Ansawdd Mewnol | | | |
| | | Llofnod yr Asesydd | | | |

FOCUS AWARDS